Adroddiad ar

Treffos School

Llansadwrn
Ger Porthaethwy
LL59 5SD

Dyddiad yr arolygiad: Medi 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn â Treffos School

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Treffos School |
| Statws y perchennog | Dr S Humphreys a Mrs J Humphreys |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Ysgol gynradd annibynnol |
| Darpariaeth breswyl? | Nac oes |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 69 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 62 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 30/10/2022 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 30/09/2025 |

### Cyd-destun yr ysgol

Mae Treffos yn ysgol gynradd annibynnol ar gyfer disgyblion rhwng tair ac un ar ddeg oed. Mae wedi'i lleoli nid nepell o Borthaethwy ar Ynys Môn. Agorwyd yr ysgol ym 1983 gan y penaethiaid presennol, sydd hefyd yn berchnogion arni.

Mae 69 o ddisgyblion ar y gofrestr, ar hyn o bryd, ac mae 7 disgybl islaw'r oed ysgol statudol. Mae disgyblion yn yr ysgol wedi'u trefnu'n bum dosbarth; mae'r dosbarth cyn-ysgol a'r dosbarth derbyn wedi'u cyfuno, felly hefyd Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2, a Blwyddyn 4 a Blwyddyn 5. Mae Blwyddyn 3 a Blwyddyn 6 ill dwy yn ddosbarthiadau ar wahân.

Mae'r ysgol yn swatio mewn lleoliad gwledig heddychlon ac yn cynnwys cyfres o adeiladau. Mae gan bob dosbarth ei 'le' ei hun ar safle'r ysgol. Mae tir helaeth yn yr awyr agored, gan gynnwys ardaloedd coediog, caeau agored a gerddi, cae pob tywydd, a mannau chwarae anturus sy'n hanfodol i gwricwlwm ac ethos yr ysgol. Mae cyfleusterau pellach yn cynnwys mannau addysgu, fel 'The Hobbit's House' a 'The Potion's Room', theatr, neuadd, ac ysgubor bren.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn byw ar Ynys Môn. Mae ychydig o ddisgyblion yn teithio o ardaloedd gwledig cyfagos, ac mor bell â Chaernarfon a Threfor.

Saesneg yw prif iaith y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae nifer fach iawn o ddisgyblion yn siarad ieithoedd eraill ar yr aelwyd. Daw cyfran fach o ddisgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Nid nod yr ysgol yw gwneud disgyblion yn ddwyieithog yn Saesneg a Chymraeg. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yr ysgol yn cael cymorth ychwanegol i ddysgu. Nid oes gan yr un disgybl gynllun datblygu unigol a gynhelir gan yr awdurdod lleol.

Mae 12 aelod o staff, y mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi bod yn eu swydd ers blynyddoedd lawer.

Mae'r ysgol yn annetholus, ond mae arsylwadau anffurfiol yn ystod sesiynau rhagflas yn yr ysgol a deialog gyda rhieni yn helpu darparu gwybodaeth am y plant.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Hydref 2022.

## Argymhellion blaenorol

A1. Sicrhau bod polisïau'r ysgol yn cael eu diweddaru'n rheolaidd i ystyried canllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru a bod arferion staff yn adlewyrchu polisi.

A2. Cryfhau ac ymgorffori prosesau sicrhau ansawdd yr ysgol.

A3. Egluro cyfrifoldebau a blaenoriaethau arweinwyr ar draws yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Treffos School yn ysgol anogol lle mae gofal ac uchelgais yn amlwg iawn. Mae staff a disgyblion yn ymgorffori gwerthoedd yr ysgol bob dydd ym mhopeth a wnânt.

Ers yr arolygiad ym mis Hydref 2022, mae arweinyddiaeth wedi pontio'n esmwyth, ac mae penaethiaid ar y cyd bellach yn goruchwylio gweithrediadau tra bod y perchnogion yn canolbwyntio ar reoli'r ystâd a chydymffurfiaeth reoleiddiol. Mae rolau arwain wedi'u diffinio'n glir ac yn cael eu deall ar draws yr ysgol. Caiff polisïau eu rheoli'n gadarn, ac mae adolygiadau rheolaidd yn cyd-fynd â chanllawiau a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru.

Mae sicrhau ansawdd wedi cael ei ailgyflwyno a'i miniogi. Mae arweinwyr yn cynnal arsylwadau gwersi ac arolygon fel mater o drefn, ac yn ymgynghori â gweithwyr proffesiynol allanol, ond yn aml, mae cofnodion arsylwi gwersi arweinwyr yn canolbwyntio ar addysgu yn hytrach na dysgu.

Mae'r addysgu yn effeithiol, mae staff yn modelu iaith yn effeithiol ac mae disgyblion yn dangos medrau llafaredd, cymdeithasol ac annibyniaeth rhagorol. Mae'r rhan fwyaf o'r

gwersi wedi’u teilwra ac yn ddifyr, er bod ychydig ohonynt yn parhau i fod yn rhy gyfarwyddol. Mae disgyblion yn dangos cynnydd cyflym mewn llythrennedd a rhifedd, gan gymhwyso medrau yn hyderus ar draws y cwricwlwm ac mewn cyd-destunau dilys. Mae arferion diogelu yn drylwyr, gyda systemau a hyfforddiant effeithiol ar waith.

Nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw’r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024.

## Prif werthusiad

Mae Treffos School yn lle cynnes a chroesawgar, lle mae gofal ac uchelgais yr un mor amlwg â'i gilydd. O ganlyniad i ffocws pwrpasol ac eglur ar werthoedd yr ysgol, sef parch, cydweithrediad, tegwch, gonestrwydd a'r amgylchedd, mae bron pob aelod o gymuned yr ysgol yn ymgorffori'r rhinweddau hyn yn eu gweithgarwch o ddydd i ddydd.

***Cynnydd yn erbyn argymhellion***

Ers yr arolygiad craidd ym mis Hydref 2022, mae'r perchnogion wedi camu'n ôl yn raddol o weithredu'r ysgol yn amser llawn. Ar ôl cyfnod pontio bwriadol a graddol, penodwyd dau aelod presennol o staff yn benaethiaid ar y cyd ym mis Medi 2025. Ar yr adeg hon, roedd perchnogion yn ymgymryd â rolau penaethiaid. Er eu bod yn parhau i fod yn hynod weladwy ac yn annatod i fywyd bob dydd yr ysgol, mae eu cyfrifoldebau wedi lleihau i ganolbwyntio ar reoli'r ystâd ac adnoddau, yn ogystal â goruchwylio cydymffurfiaeth reoleiddiol a diogelu.

Mae'r penaethiaid ar y cyd yn arwain mwyafrif y gweithrediadau o ddydd i ddydd erbyn hyn. Mae eu cyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir, wedi'u dosbarthu'n briodol, ac yn cyd-fynd â'u medrau, eu profiad a'u diddordebau unigol. Disgrifir yr hierarchaeth arweinyddiaeth newydd yn effeithiol trwy ystod o ddogfennau, gan gynnwys swydd-ddisgrifiadau manwl. Mae staff ar bob lefel yn deall y strwythur diwygiedig, sydd wedi helpu egluro a blaenoriaethu cyfrifoldebau arwain.

Mae cynnydd hefyd yn amlwg yn ymagwedd yr ysgol at reoli polisïau. Caiff yr holl bolisïau statudol ac atodol eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd yn unol â chanllawiau a deddfwriaeth ddiweddaraf Llywodraeth Cymru. Mae amserlen adolygu sy'n cyd-fynd â'r Safonau Ysgolion Annibynnol yn sicrhau bod pob polisi wedi cael ei adnewyddu o fewn y deuddeg mis diwethaf. Yn ystod yr arolygiad, nid oedd unrhyw bryderon ynglŷn â gweithredu'r polisïau hyn yn gywir gan staff.

Mae arweinwyr wedi cryfhau eu hymagwedd at sicrhau ansawdd, hefyd. Ailgyflwynwyd ystod o weithgareddau gwerthusol, gan gynnwys arsylwadau gwersi ffurfiol gyda ffocws tymhorol, teithiau dysgu anffurfiol, cymorth ymgynghoriaeth allanol, ac arolygon yn cynnwys disgyblion, rhieni a staff. Mae'r arolwg staff blynyddol yn hynod werthfawr, gan gynnig myfyrdodau manwl a gonest ar arfer broffesiynol, anghenion hyfforddi, a systemau'r ysgol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw cofnodion arsylwi gwersi'n cynnwys gwerthusiad o gynnydd disgyblion yn ystod gwersi, sy'n cyfyngu ar eu gallu i asesu effaith yr addysgu ar ddysgu.

Ar ôl ystyried yr adborth o'r gweithgareddau sicrhau ansawdd hyn yn ofalus, mae arweinwyr wedi rhannu'r rhain gyda staff ac wedi cydweithio i bennu blaenoriaethau datblygu'r ysgol. O ganlyniad, mae arweinwyr wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at bob un o'r argymhellion o'r arolygiad blaenorol.

***Dysgu ac addysgu***

Mae bron pob un o'r staff yn fodelau iaith hynod effeithiol, gan amrywio tôn a sain yn arbenigol i gyfarwyddo, hyfforddi a holi eu disgyblion. I ymateb i hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos medrau llafaredd hynod ddatblygedig am eu hoedran, ac mae ychydig ohonynt yn cyfathrebu'n eithriadol o dda, gan ddefnyddio geirfa dechnegol yn briodol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn groesawgar iawn ag ymwelwyr, yn eu cyfarch yn wresog ac yn barod i sgwrsio â nhw. Maent yn awyddus i rannu'r hyn y maent yn ei ddysgu ac yn amlwg yn falch o'u cyflawniadau.

O ganlyniad i'r pwyslais cryf a roddir ar werthoedd yr ysgol, mae gan bron bob un o'r disgyblion fedrau cymdeithasol hynod ddatblygedig am eu hoedran a'u cyfnod. Maent yn gwrtais ac yn barchus â'u cyfoedion ac oedolion, ac yn garedig â'i gilydd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn fedrus o ran cymryd eu tro ac yn gwrando'n astud ar eu hathrawon a'u cyfoedion. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymgysylltu'n dda, yn frwdfrydig ac yn chwilfrydig o ran eu dysgu.

Mae cymorth staff yn hynod effeithiol ac yn cael ei gymhwyso'n amyneddgar. Gadewir i ddisgyblion ddatrys y broblem yn gyntaf cyn i staff gamu i mewn i gynorthwyo. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu eu gwydnwch a'u hannibyniaeth yn gyflym dros gyfnod. Mae cyfleoedd sydd wedi'u cynllunio'n bwrpasol yn cynorthwyo llawer o ddisgyblion i ddatblygu eu hannibyniaeth a'u hunandrefniadaeth ymhellach. Mae hyn yr un mor amlwg mewn ystafelloedd dosbarth, lle mae disgyblion yn trefnu eu hadnoddau, eu hoffer a'u hardal weithio heb gyfarwyddyd, ac yn ystod dysgu yn yr awyr agored lle mae disgyblion yn datrys problemau mewn cyd-destunau dilys. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn defnyddio rhaffau a thirwedd i greu cwrs rhwystrau.

Mae bron pob un o'r athrawon yn adnabod eu disgyblion yn eithriadol o dda. Yn y gwersi gorau, defnyddir y wybodaeth hon ochr yn ochr â brwdfrydedd disgyblion ac annibyniaeth hynod ddatblygedig i ddarparu lefel bwrpasol o her. Mae gweithgareddau a chyfleoedd yn y gwersi hyn yn elwa ar chwilfrydedd disgyblion, gan ganiatáu ar gyfer ystod eang o ddeilliannau a chynnydd cyflym ac unigoledig. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, mae gweithgareddau'n gymharol gyfarwyddol ac unffurf. Yn y gwersi hyn, nid yw disgyblion bob amser yn profi'r lefel deilwredig o her sy'n nodweddiadol o arfer orau'r ysgol.

Mae disgyblion ieuengaf yr ysgol yn datblygu eu medrau motor manwl yn llwyddiannus trwy dorri, gludo a didoli. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae disgyblion yn adeiladu ar

sylfeini cadarn mewn llawysgrifen, gan ddatblygu rhuglder, rheolaeth ac arddull gyson. Mae'r sylfaen gref hon yn eu galluogi i ganolbwyntio'n gynyddol ar gynnwys a diben eu hysgrifennu. Erbyn Blynyddoedd 5 a 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n hyderus ac yn effeithiol ar gyfer ystod o ddibenion a chynulleidfaoedd, gan ddefnyddio llawysgrifen wedi'i ffurfio'n dda, a geirfa eang a mynegiannol.

Mae bron pob un o'r disgyblion iau yn datblygu eu medrau rhifedd yn gyflym ac yn fedrus o ran defnyddio'r pedwar gweithrediad rhifyddeg yn eu cyd-destun. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn briodol. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn cymhwyso'u medrau darllen yn effeithiol i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu, ac wrth ddarllen ar goedd mewn gwasanaethau. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yn rhaglennu robotiaid o gyfarwyddiadau ysgrifenedig yn gywir, ac mae disgyblion Blwyddyn 6 yn dethol gwybodaeth o destunau mewn amrywiaeth o bynciau a gweithgareddau.

Mae arweinwyr yn datblygu diwylliant diogelu cadarn yn yr ysgol. Ceir trefniadau cadarn ar gyfer cofnodi achosion o ddisgyblion yn absennol, a mynd i'r afael â hyn. Mae system a ddeellir yn dda i roi gwybod i ddisgyblion a staff am bryderon ynghylch diogelu. Mae gan yr ysgol weithdrefnau recriwtio mwy diogel trylwyr ac mae'n sicrhau bod pob aelod o staff yn cael hyfforddiant diogelu rheolaidd sy'n rhagori ar yr isafswm statudol. Codwyd ychydig o faterion yn ymwneud â pholisïau a chadw cofnodion gyda'r ysgol yn ystod yr arolygiad. Aethpwyd i'r afael â'r rhain yn llwyddiannus.

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024.

## Cydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer cofrestru

Caiff arolygiadau ysgolion annibynnol eu llywodraethu gan Ddeddf Addysg 2002 a rheoliadau cysylltiedig: Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol annibynnol fodloni safon briodol yn y meysydd canlynol:

### Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

### Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

### Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

### Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

### Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

### Darparu gwybodaeth

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

### Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

## Argymhellion newydd

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1. Mireinio ffocws arsylwadau gwersi i werthuso dysgu disgyblion fel un o sgil-effeithiau darpariaeth ac addysgu

## Diogelu

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Mae Estyn yn cynghori'r perchennog i ddiwygio'i gynllun datblygu presennol i ddangos pa gamau y mae'r ysgol yn bwriadu eu cymryd i ymateb i'r argymhellion. Hefyd, byddai'n ddoeth dosbarthu'r cynllun hwn, neu grynodeb ohono, i'r holl rieni / gofalwyr yn yr ysgol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r staff cymorth trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr / perchnogion, arweinwyr ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â gwersi ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi dysgu'r disgyblion
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol (lle bo'n briodol), gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024. Mewn ysgolion sy’n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae’r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a)  mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae’r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu’n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  02/12/2025